**TGAU**

225/01

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF
## HAEN SYLFAENOL

A.M. DYDD LLUN, 9 Mehefin 2008

2½ awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.

Deunydd Darllen ar gyfer Adran A.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **tri** chwestiwn o Adran A ac **un** cwestiwn o Adran B.

Ceisiwch gwblhau Adran A mewn tua 1¾ awr er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf ¾ awr i gwblhau cwestiwn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

## ADRAN A

Darllenwch y tri darn darllen ac yna atebwch y **tri** chwestiwn.

Darn Darllen 1: Chwarae rygbi dros Gymru
Darn Darllen 2: Hanes Cwpan y Byd: 1987
Darn Darllen 3: Wythnos ym mywyd Nicky Robinson

- Darllenwch y darnau darllen a'r cwestiynau cyfan yn ofalus. Yna, atebwch y cwestiynau, gan ddefnyddio'r ffeithiau o'r darnau darllen yn unig.
- Wrth ateb dylech roi sylw i gywirdeb iaith a mynegiant. Rhoddir hyd at **20 marc** yn yr adran hon am ansawdd eich iaith a'ch mynegiant ar draws yr holl atebion.

**1. Chwarae rygbi dros Gymru (Darn Darllen 1)**
**Hanes Cwpan y Byd (Darn Darllen 2)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 1** atebwch y cwestiynau hyn yn eich geiriau eich hun:

(i) Enwch y ddwy ferch a ddewiswyd i gynrychioli eu gwlad ar y cae rygbi. [2]
(ii) I ba ddau glwb lleol y maen nhw'n chwarae? [2]
(iii) Pryd y cafodd y ddwy ferch wybod eu bod wedi ennill eu lle yn y garfan? [1]

Ar ôl darllen **Darn Darllen 2** atebwch y cwestiynau hyn yn eich geiriau eich hun:

(iv) Ym mha flynyddoedd y bu rygbi yn rhan o'r Gêmau Olympaidd? [2]
(v) Beth gynigiodd Undeb Rygbi Awstralia ac Undeb Rygbi Seland Newydd ym 1983? [1]
(vi) Enwch y ddau chwaraewr sicrhaodd y trydydd safle i Gymru yn erbyn Awstralia. [2]

**[10]**

**2. Chwarae rygbi dros Gymru (Darn Darllen 1)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 1** dychmygwch eich bod yn cyfweld y ddwy ferch.

Dylech gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- eu hardal a'u timau lleol
- sut a phryd y cawsant eu dewis i chwarae rygbi dros Ogledd Cymru a thros Gymru
- chwarae i'r garfan genedlaethol. [28]

Ysgrifennwch ar ffurf deialog. [2]

*Defnyddiwch wybodaeth o'r **darn darllen yn unig**.*

*Dylech ddefnyddio eich geiriau eich hun.* **[30]**

**3. Hanes Cwpan y Byd (Darn Darllen 2)**
**Wythnos ym mywyd Nicky Robinson (Darn Darllen 3)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 2** a **Darn Darllen 3** nodwch yn fyr bethau sy'n debyg ac/neu'n wahanol rhwng y ddau ddarn.

Dylech gyfeirio at y canlynol wrth ymdrin â'r ddau ddarn:

(i) cynnwys (**tri** pheth o Ddarn Darllen 2 a **thri** pheth o Ddarn Darllen 3); [9]

(ii) ffurf, iaith, arddull a disgrifiadau (**dau** beth o Ddarn Darllen 2 a **dau** beth o Ddarn Darllen 3). [6]

Rhoddir marciau i chi am **gymharu bwriadol a threfnus** yn adran (i) a (ii). [2]

Dylech gynnwys **dyfyniadau o'r ddau ddarn** i gefnogi'ch sylwadau yn adran (i) a (ii). [3]

*Peidiwch ag ymdrin â'r ddau ddarn darllen ar wahân.*

**[20]**

**[60 + 20 = 80]**

**TROSODD AR GYFER ADRAN B.**

## ADRAN B

**4.** Dewiswch **un** o'r testunau canlynol ac ysgrifennwch arno.
Nodwch rif y cwestiwn a thestun y gwaith.
Dylai eich ateb fod o leiaf **ddwy** ochr tudalen.
Meddyliwch a chynlluniwch eich gwaith yn ofalus.
Rhowch sylw manwl i ysgrifennu'n gywir.

**[20 + 20 = 40]**

*(a)* **STORI:**

Ysgrifennwch stori ar y testun, 'Ar y blaen!'.

*Ceisiwch wneud yn siŵr fod eich stori'n ddiddorol a bod cymeriadau a sgwrs ynddi.*

*(b)* **YMSON:**

Ysgrifennwch ymson **tri** diwrnod ym mywyd person sy'n cystadlu mewn unrhyw gêm neu gystadleuaeth arall.

*Cofiwch ddychmygu mai chi yw'r cymeriad, nodi beth sy'n digwydd ar y tri diwrnod yn ogystal â meddyliau a theimladau'r person.*

*(c)* **LLYTHYR:**

Ysgrifennwch lythyr at ffrind gan berson sy'n cymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiad pwysig.

*Cofiwch mai chi yw'r cymeriad; disgrifiwch yr hyn sy'n digwydd, gan adrodd unrhyw hanesion diddorol, a chyfleu teimladau'r person.*

*(ch)* **ARAITH** neu **ERTHYGL** yn **MYNEGI BARN** ar y testun:

Mae gormod o chwaraeon ar y teledu!

*Medrwch gytuno neu anghytuno â'r gosodiad uchod. Ceisiwch fod yn drefnus a rhoi tystiolaeth i gefnogi eich pwyntiau a'ch barn bob tro.*

**TGAU**

225/01-A

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF
## HAEN SYLFAENOL

A.M. DYDD LLUN, 9 Mehefin 2008

2½ awr

**DEUNYDD DARLLEN AR GYFER ADRAN A I'W DDEFNYDDIO GYDA HAEN SYLFAENOL**


| | Tudalen |
|---|---|
| Darn Darllen 1 | 2 |
| Darn Darllen 2 | 3 |
| Darn Darllen 3 | 4 |

**DARN DARLLEN 1**

bbc.co.uk

LLEOL I MI Gogledd Ddwyrain PAPURAU BRO



## Chwarae rygbi dros Gymru

Daeth clod a bri i'n hardal yn ddiweddar pan ddewiswyd dwy o ferched ifanc y fro i gynrychioli eu gwlad ar y cae rygbi.

Enillodd Rhian Gwawr Davies o Langernyw a Mari Llywarch Tomos o Lannefydd eu lle yng ngharfan Merched dan 16 Cymru, Rhian yn y rheng flaen a Mari fel canolwr.

Dewiswyd y ddwy i gynrychioli Gogledd Cymru ddechrau Mawrth. Aeth y garfan honno i Lanfair ym Muallt ddydd Sul, Mawrth 10 lle chwaraeon nhw yn erbyn tîm De-ddwyrain Cymru a thîm De-orllewin Cymru. Roedd y ddwy gêm yn agos a chyffrous iawn mewn tywydd garw - prin y gellid adnabod y merched ar ddiwedd y gêmau gan fod cymaint o fwd drostyn nhw!

**Dewis y garfan genedlaethol**

Roedd dewiswyr Cymru yno i ddewis y garfan genedlaethol ac er mawr lawenydd i Rhian a Mari (a'u teuluoedd!) cafodd y ddwy wybod ar Fawrth 13 eu bod wedi ennill eu lle yn y garfan.

Ymunodd Rhian â Chlwb Rygbi Nant Conwy ym 1999 wedi iddi gael blas ar y gêm wrth chwarae rygbi yn yr ysgol. Fel rheol bydd yn chwarae yn safle prop neu fflancar, ond mae'n well ganddi fod yn y rheng flaen ym mol y sgrym! Mae'n mynd i'r ymarferion yn y Nant ar nos Fercher ac o bryd i'w gilydd yn Ninbych ar fore Sadwrn.

Dim ond ers blwyddyn y bu Mari'n chwarae rygbi, wedi i Glwb Rygbi Dinbych sefydlu tîm i ferched dan 16 am y tro cyntaf yn hanes y clwb. Canolwr yw ei safle, yn taclo a hyrddio fel y byddai Ray Gravell ar ei orau.

**Prinder gwrthwynebwyr**

Mae tîm Dinbych yn ymarfer ar gaeau'r clwb rygbi bob nos Fercher a bore Sadwrn, ac maen nhw wedi chwarae gêmau yn erbyn Caernarfon a'r Bala – dim digon o wrthwynebwyr yw'r anhawster ar hyn o bryd, ond mae'n siŵr y bydd mwy o dimau yn cael eu sefydlu yn fuan gan fod Undeb Rygbi Cymru ar fin penodi Trefnydd Rygbi Merched rhan amser yn y Gogledd.

Teithiodd y ddwy i Gaerdydd dros benwythnos y Pasg gan fod y garfan yn ymarfer ar gaeau'r Brifysgol fore Sul y Pasg, a chwarae gêm yn y prynhawn i ddathlu pen-blwydd Clwb Rygbi Treforys, ar gyrion Abertawe, yn 125 oed.

Bydd y garfan genedlaethol yn dod at ei gilydd i gael eu hyfforddi yng Nghaerdydd ym mis Mai a mis Awst, a'r nod tymor hir i Rhian a Mari yw symud ymlaen i'r garfan Merched dan 19, wedyn y tîm llawn ar gyfer Cwpan y Byd.

Pob lwc i'r ddwy, sydd eisoes wedi cyflawni tipyn o gamp - merched cyntaf y fro i gael eu dewis i chwarae rygbi dros eu gwlad.

**DARN DARLLEN 2**

bbc.co.uk

CHWARAEON Cwpan Rygbi'r Byd

**BBC CHWARAEON**

## Hanes Cwpan y Byd: 1987



Roedd yn eiliad hanesyddol wrth i'r Eidal a Seland Newydd redeg ar y maes yn Eden Park, Auckland ar 22 Mai, 1987.

116 o flynyddoedd wedi i'r Alban groesawu Lloegr i Gaeredin ar gyfer y gêm brawf gyntaf un, roedd y byd rygbi'n cynnal Cwpan y Byd am y tro cyntaf.

Roedd y byd rygbi'n hwyr iawn yn trefnu Pencampwriaeth y byd. Roedd pêl-droed wedi cynnal Cwpan y Byd er 1930, cafwyd Cwpan Rygbi XIII y Byd am y tro cyntaf ym 1954 ac roedd hyd yn oed y byd criced wedi cynnal Cwpan y Byd er 1975. Roedd rygbi wedi bod yn rhan o'r Gêmau Olympaidd ym 1900, 1908, 1920 a 1924 ond roedd yr Undebau wedi gwrthod cynigion i greu Pencampwriaeth y Byd er mwyn ceisio cadw'r gamp yn amatur.

Ym 1983, cafwyd cynnig gan Undeb Rygbi Awstralia ac Undeb Rygbi Seland Newydd i gynnal cystadleuaeth Cwpan y Byd ac o'r herwydd, fe benderfynodd y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol *(IRB)* ymchwilio i'r syniad.

Mewn cyfarfod yr *IRB* ym Mharis ym 1985, cefnogwyd y syniad o gynnal Cwpan y Byd yn Awstralia a Seland Newydd gan y ddwy wlad honno ynghyd â Ffrainc, ond roedd y pedwar Undeb o Ynysoedd Prydain yn gwrthwynebu. Credir mai penderfyniad De Affrica i bleidleisio o blaid y gystadleuaeth, arweiniodd at Loegr a Chymru'n newid eu meddyliau.

Cafodd y saith aelod o'r *IRB* - Seland Newydd, Awstralia, Ffrainc, Lloegr, Yr Alban, Cymru ac Iwerddon - eu lle yn y gystadleuaeth ond doedd dim gêmau rhagbrofol ar gyfer y naw lle arall. Yn hytrach, cafodd Yr Ariannin, Fiji, Yr Eidal, Canada, Romania, Tonga, Japan, Zimbabwe ac America wahoddiad i gystadlu.

Seland Newydd oedd y pencampwyr cyntaf wrth i'r Crysau Duon drechu Ffrainc 29-9 yn y rownd derfynol yn Eden Park.

Llwyddodd Cymru i orffen yn drydydd wrth i drosiad hwyr Paul Thorburn yn dilyn cais gan Adrian Hadley sicrhau buddugoliaeth 22-21 dros Awstralia.

## DARN DARLLEN 3

### Wythnos ym mywyd Nicky Robinson





**Dydd Llun:** Pawb yn codi pwysau er mwyn cryfhau'r corff - mae'n bwysig bod mewn cyflwr da i chwarae'r gêm. Bwyta gyda'n gilydd fel tîm amser cinio, gan fwyta bwydydd iach. Chwarae gêm o griced, sy'n llawer o hwyl, yn ystod yr awr ginio.

**Dydd Mawrth:** Gwylio fideos o'n gwrthwynebwyr i weld pa fath o gêm maen nhw'n ei chwarae a beth yw gwendidau'r tîm. Ymarfer rygbi wedyn, achos mae'n bwysig i bob aelod o'r tîm ddeall ei rôl.

**Dydd Mercher:** Ymarfer rygbi eto. Ymarfer fy nghicio am awr neu ddwy wedyn. Ambell brynhawn bydd gennym ddyletswyddau yn y gymuned. Heddiw rydyn ni'n hyfforddi plant ysgol. Mae'r holl sgwad yn mwynhau cwrdd â'n cefnogwyr ifanc.

**Dydd Iau:** Diwrnod o orffwys heddiw. Mae rygbi'n gêm gorfforol iawn felly mae'n bwysig rhoi amser i'r corff orffwys. Weithiau mae'n rhaid gwneud gwaith i'r clwb. Heddiw rwy'n gorfod modelu dillad newydd y Gleision ar gyfer catalog y siop. Mae'n eitha hwyl gwneud y math yma o beth.

**Dydd Gwener:** Diwrnod cyn y gêm rydyn ni'n cael 'team run', lle mae'r holl fechgyn sy'n chwarae yn cael un sesiwn ymarfer olaf. Gweithio ar y symudiadau a'r tactegau. Ymarfer fy nghicio am y tro olaf cyn y gêm.

**Dydd Sadwrn:** Diwrnod y gêm fawr. Fydda i ddim yn bwyta llawer cyn y gêm achos mae'n rhaid gwneud yn siŵr fod y corff ar ei orau cyn chwarae. Ar ôl y gêm mae'r ddau dîm yn cwrdd ac yn bwyta gyda'i gilydd. Mae rygbi'n ffordd grêt o ddod i nabod pobol a gwneud ffrindiau newydd.

**Dydd Sul:** Diwrnod ar ôl y gêm rwy'n ymlacio. Rwy'n mwynhau llawer o chwaraeon ac yn hoffi gwylio pêl-droed neu chwarae golff. Rwyf hefyd yn cael cinio dydd Sul gyda fy nheulu. Maen nhw wedi bod yn gefnogol iawn i mi gyda fy ngyrfa rygbi.




(Detholiad o ddyddiadur Nicky Robinson a lluniau *Dathlu Rygbi Cymru Elin Meek Gwasg Carreg Gwalch*)